


GIG CYMRU NHS WALES
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Cylchlythyr Optometreg

Tachwedd 2023

# Adroddiad ar Gynhadledd Optometreg "Llygaid ar AaGIC", 20 o Fedi 2023

Cynhaliodd AaGIC eu cynhadledd gyntaf ar gyfer optometryddion ac optegwyr dosbarthu yn Miskin Manor ar yr 20$^{fed}$ o Fedi. Roedd y digwyddiad yn gyfle i gael DPP am ddim, gan gynnwys adolygiad gan gymheiriaid, trafodaeth ar sail achos a phrif ddarlith. Roedd yn hynod boblogaidd a chafodd dderbyniad da yn gyffredinol. Gan ddenu dros 100 o fynychwyr wyneb yn wyneb, roedd yn gyfle gwych i rwydweithio ar gyfer yr holl optometryddion ac optegwyr dosbarthu ledled Cymru.

Dywedodd Nik Sheen, Pennaeth Optometreg yn AaGIC, "Roedd y gynhadledd yn llwyddiant ysgubol diolch i waith caled staff optometreg AaGIC a'n hwyluswyr. Braf oedd gweld cymaint o gydweithwyr a ffrindiau yn ogystal â llawer o wynebau newydd.

Y negeseuon ar gyfer y gynhadledd oedd sut y gallwn gefnogi'r proffesiynau i gyflawni'r contract optometreg newydd". Ychwanegodd "Rhoddodd hefyd gyfle i ni arddangos rhai o'r datblygiadau y mae AaGIC wedi bod yn eu gwneud ar gyfer y proffesiynau yng Nghymru".

Roedd y pynciau'n cynnwys dyletswydd gonestrwydd, glawcoma, a chyfeirio golwg gwan, gyda'r cyweirnod ar ddehongli OCT yn cael ei gyflwyno mewn arddull unigryw gan Gwyn Williams, Llywydd Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr.

Fe leihaodd y gynhadledd y defnydd o bapur gyda'r cyflwyniadau a'r hanesion achos ar gael i'r holl ddefnyddwyr ar-lein yn fyw yn y digwyddiad, yn lle pamffledi papur.

Roedd yr adborth yn unfrydol gadarnhaol ac yn cynnwys y canlynol:

'Roedd yn ddigwyddiad ardderchog ac yn beth da iawn ei fod yn ddigwyddiad wyneb yn wyneb. Roedd yr arlwyaeth yn rhagorol. Roedd y trefnu'n ardderchog, yr hwyluswyr a'r cyflwynwyr yn ardderchog felly diolch yn fawr iawn am yr holl waith.'

'Roedd yr holl drafodaethau'n berthnasol i'r ddau broffesiwn (Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi)'

'Trafodaeth arall wedi'i chyflwyno'n dda gyda digon o amser i fyfyrio a thrafod yr amrywiaeth o agweddau ar arfer Ymarfer Golwg Gwan.'

**Derbyniodd cynhadledd AaGIC sgôr gyffredinol o 4.6/5.0.**





# Galwad am Ymarferwyr Golwg Gwan sy’n Hunan-Ariannu

Fel rhan o'r contract newydd, mae'n bleser gennym gyhoeddi y bydd ymarferwyr sydd wedi dilyn y Dystysgrif Broffesiynol mewn Golwg Gwan mewn prifysgol yn y DU bellach yn gallu darparu'r LVSW (yn dilyn hyfforddiant atodol a gynhelir gan AaGIC). Yn hanesyddol, dim ond y rhai â nawdd cymeradwy AaGIC a allai wneud hynny.

Os ydych chi'n un o'r ymarferwyr sydd eisoes yn meddu ar y cymhwyster uchod, ac yn awyddus i gymryd rhan yn y gwasanaeth gwych hwn i'ch cleifion, llenwch y ffurflen yma neu sganiwch y cod QR isod:

Byddwn yn cysylltu â chi maes o law ar ôl derbyn y ffurflen.

**Os bydd gennych unrhyw ymholiadau pellach ynghylch hyfforddiant golwg gwan, cysylltwch â'r Arweinydd Hyfforddiant Golwg Gwan drwy: heiw.optometrylowvision@wales.nhs.uk**

# Arbedwch y Dyddiad - Cynhadledd Optometrig AaGIC

Dydd Mercher 13 Mawrth 2024

Gwesty Oriel
Ffordd Dinbych Uchaf
Llanelwy
LL17 0LW



# Diweddariad Hyfforddiant WGOS

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i'r ymarferwyr hynny sydd wedi bod yn gweithio'n hynod galed ar gwblhau'r gofynion hyfforddi craidd ar gyfer y contract Optometreg newydd. Rydym yn hynod ddiolchgar am yr adborth a dderbyniwyd a hoffem annog y rhai ohonoch sydd heb gyflwyno unrhyw sylwadau eto i wneud hynny.

I'r rhai ohonoch sydd eto i ymgymryd â'r modiwlau hyfforddi sy'n ofynnol wrth gyflwyno WGOS, cofrestrwch ar blatfform dysgu AaGIC trwy glicio yma. Rhaid i bob Optometrydd, Optegydd Cyflenwi ac aelod o staff Practis sy'n ymgymryd ag unrhyw dasgau dirprwyedig i gynorthwyo â darparu gofal ddilyn yr hyfforddiant isod.

| WGOS | Gwneud i Bob Cyswllt Gyfri (GBCG) | Atal a Rheoli Heintiau a Diogelwch Offer Miniog | Gwella Ansawdd gyda'n Gilydd – Hyfforddiant Gwella |
|---|---|---|---|
| Yn disgrifio sut mae WGOS wedi ei strwythuro a sut y gallai gael ei gyflawni | Yn disgrifio sut gallai sgyrsiau mewn ymarfer optometreg gael eu defnyddio i gefnogi cleifion i wneud penderfyniadau ffordd o fyw iach. | Yn disgrifio sut gallwch sicrhau gofal diogel ar gyfer cleifion drwy ddefnyddio atal a rheoli heintiau a bod yn ddiogel wrth ddelio gydag offer miniog wrth ymarfer. | Yn disgrifio sut mae defnyddio gwella ansawdd i gefnogi gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau darpariaeth o ofal diogel ac o ansawdd i gleifion |
| **1 pwynt DPP** | **1 pwynt DPP** | **1 pwynt DPP** | **2 bwynt DPP.** |

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy HEIW.Optometry@wales.nhs.uk gan roi 'YTD' ym mhennawd pwnc yr e-bost. Fel arall, gallwch gysylltu â ni ar **01443 824653**. Mae tîm AaGIC ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am-4pm ac yn ymdrechu i ymateb i e-byst a galwadau cyn gynted â phosibl.

**Nodwch os gwelwch yn dda: Mae AaGIC yn gyfrifol am hyfforddiant ac addysg y gweithlu, mae angen cyfeirio unrhyw ymholiadau gwasanaeth at nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk .**

**heiw.optometry@wales.nhs.uk**
**Ymholiadau cyffredinol neu hyfforddiant ac achrediad WGOS**

**nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk**
**Ymholiadau clinigol WGOS neu ymholiadau ynghylch rheolaeth WGOS**

**HEIW.OptometryLowVision@wales.nhs.uk**
**Hyfforddiant ac achrediad Golwg Gwan**

**Low.vision@wales.nhs.uk**
**Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru - ymholiadau clinigol, ar sail rheolaeth neu ddarpariaeth gwasanaethau**